



Cylch Meithrin

PENTREUCHAF

Annwyl rieni/gwarchodwyr,

Newyddion da! Mi fydd Cylch Meithrin Pentreuchaf yn ail-agor wedi'r cyfnod clo ar ddydd Llun, Medi 21eg rhwng 1:30 - 3.30 yn y prynhawn. Mae gan y Cylch bolisi Covid19 yn ei le er mwyn sicrhau diogelwch y plant ac aelodau staff. Mi fydd y staff yn cadw at reolau ymbellhau cymdeithasol a mi fydd glanhau trylwyr yn cymryd lle yn ystod ac yn enwedig ar ôl bob sesiwn. Mi fydd pob plentyn yn cael bocs o adnoddau ei hunain, megis adnoddau gwaith celf ac ati.

Gofynnwn yn garedig i chi ddarparu ffrwyth a diod o ddŵr eich hunain i'ch plentyn, a ble'n bosib i chi baratoi ffrwyth y gall eich plentyn ei agor/fwyta yn annibynnol, fel nad yw'r staff yn gorfod cynorthwyo gyda hyn, ac felly yn lleihau cyswllt di-angen.

Bydd angen i'r plant wisgo dillad addas ar gyfer mynd allan i chwarae - oherwydd bydd llawer o sesiynau yn digwydd yn yr awyr agored ble'n bosib.

Yn unol â rheolau pellhau cymdeithasol, ni fydd rhieni yn cael dod i fewn i adeilad y Cylch, a phan yn dod i ddanfôn neu nôl eich plant mae smotiau 2m wedi ei marcio tu allan i ddrws mynedfa'r Cylch. Gofynnwn yn garedig i chi ddilyn y rheolau yma os gwelwch yn dda.

Ar ôl cryn drafod rydym wedi dod i'r canlyniad bod posibilrwydd y gall yr ysgol ddarparu gwasanaeth 'Meithrin Mwy' ar gyfer plant sydd eisoes yn mynychu'r dosbarth Meithrin yn y boreau. Golygir hyn y byddent yn aros yn yr ysgol ar ôl gorffen yn y dosbarth Meithrin am 11, cael cyfnod o chwarae yn y sesiwn 'Meithrin Mwy', bwyta eu cinio yn yr ysgol ac wedyn yn mynychu'r Cylch Meithrin yn y prynhawn fel yr oriau arferol. Ni fydd rhaid mynd adref rhwng y ddau sesiwn, ac felly yn hwyluso cryn dipyn ar alw gofal plant ac ati. Gallwch hefyd archebu cinio ysgol ar gyfer y plant os ydych yn dymuno hefyd.

Mae hyn i gyd yn ddibynnol ar y galw am y gwasanaeth ac felly buasem yn ddiolchgar pe tasech yn ymateb i hyn fel y gallwn weld os oes galw amdano cyn cynnig y gwasanaeth. Gallwch ebostio Pennaeth yr ysgol i ymateb - helenvaughanjones@gwynedd.llyw.cymru

Diolch o galon i chi am eich cefnogaeth yn ystod y cyfnod heriol yma. Edrychwn ymlaen i gael croesawu'r hen blant yn ôl i'r Cylch mewn pythefnos.

Pwyllgor Cylch Meithrin Pentreuchaf